

– ac unigolion hyd yn oed – dalu am doiled glân i gymunedau sydd heb doiled o'r fath ar hyn o bryd. Mae cannoedd os nad miloedd o doiledau wedi eu darparu trwy'r cynllun hwn.

Gobeithiwn benderfynu nos Wener sut y byddwn yn mynd ati i godi arian.

Diolch

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd rhan (neu a fydd eto'n cymryd rhan) yn ein hoedfaon Diolchgarwch eleni.

Cafwyd oedfaon y Sul diwethaf yn Neiniolen, Llanllechid a Thalybont a bydd oedfa yn Llanberis y Sul nesaf.

Diolch i chi i gyd, yn blant, ieuencid a rhai hŷn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 23: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Hydref 19: Y Pwyllgor Adeiladau am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 23: Oedfa Deulu y Diolchgarwch am 10.30 o'r gloch. Wedi'r oedfa, cynhelir Cinio Cawl er budd Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 23: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Hydref 23: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 17: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 21: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 23: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am **3.15 o'r gloch** gan y Gweinidog. Oedfa Fedydd fydd hon.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Hydref 17: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 16

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 23

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Hydref 30

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 16

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - YsgolSul

5.00 p.m. - Mr Richard Ll Jones


Hydref 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu - Diolchgarwch + Cinio Cawl (elw at Ward Alaw)

Hydref 30

10.00 a.m. - Parti Bytholwyrdd
DIM YSGOL SUL

5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi



Does dim rhaid wrth fathemategydd da i wybod fod 322,762,018 yn rhif mawr iawn. Pwy all amgyffred y fath rif? Dychmygwch bentwr o 322 miliwn o gerrig. Dychmygwch lyfrgell o 322 miliwn o lyfrau. Neu beth am dyrfa o 322 miliwn o bobl?

322 miliwn (neu 322,762,018) oedd poblogaeth Unol Daleithiau'r America ddechrau Ionawr yn ôl yr *U.S. Census Bureau*. Fedraf fi ddim amgyffred y fath rif. Ond mae'n amlwg i mi a phawb arall fod hynny'n andros o lot o bobl. Ac o gofio hynny, y dirgelwch mawr yw na fedrai gwlad â chanddi gynifer o bobl ddod o hyd i rywun gwell na Donald Trump yn ymgeisydd am yr Arlywyddiaeth. Ac o weld yr holl daflu baw rhyngddo fo a Hillary Clinton dros yr wythnosau diwethaf, mae'n rhyfedd meddwl na ellid cael – o blith y 322,762,016 eraill o bobl y wlad – dau ymgeisydd mwy cymwys.

Wedi'r ymgyrchu hir, tair wythnos sydd bellach tan ddydd yr Etholiad. Nid yw'r un o'r ddau ymgeisydd yn ein llenwi â gobaith y gwelwn Arlywydd a fydd yn llais doeth a chyfiawn ar ran yr Unol Daleithiau ar lwyfan byd. Ond mae datganiadau diweddaraf Donald Trump yn peri hyd yn oed fwy o bryder na rhai o'r pethau a ddywedodd cyn hyn. Ers misoedd, clywyd Donald Trump yn dweud pob math o bethau ymfflamychol; daeth Mwslemiaid, Mecsicco, mewnfudwyr a merched dan ei lach dros ar ôl tro. Dros y dyddiau diwethaf, rhoddwyd mwy a mwy o

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 701: Dydd Sul, 16 Hydref, 2016

O ddrwg i waeth

sylw i'r hyn a ddywedodd am ferched, a chyhoeddwyd recordiad ohono'n siarad yn hyll ac anweddus am ferched arbennig rai blynyddoedd yn ôl. Fe'i cyhuddwyd hefyd gan fwy nag un ferch o ymddwyn yn gwbl amhriodol tuag atyn nhw.

Ymateb Mr Trump sy'n peri pryder gwirioneddol, wrth iddo ddadlau nad yw'r cyhuddiadau hyn yn ddim ond cynllwyn y sefydliad gwleidyddol a'r Wasg i'w ddfrio fo. A gwaeth hyd yn oed na Trump yw rhai o'i ddilynwyr sy'n bygrwth, fel y gwnaeth un o'r enw Dan Bowman, 'Os caiff hi [Hillary Clinton] ei hethol, gobeithio y gallwn drefnu *coup*. Mi ddylai hi gael ei charcharu neu ei saethu. Dyna pam mor gryf yr ydw i'n teimlo am yr holl beth. Mi gawn ni chwyldro, ac mi wnawn ni eu llusgo nhw o'u swyddi os bydd raid. Mi fydd yna dywallt gwaed mawr. Os mai dyna fydd ei angen ... mi wnawn i unrhyw beth dros fy ngwlad.'

Gobeithio mai pobl wirion sy'n siarad ar eu cyfer yw Mr Bowman a'i debyg. Ond mae'r fath siarad yn dangos mor fregus ac mor beryglus yw pethau yn yr Unol Daleithiau. Fedrwn ni ddim deall y cyfan sy'n digwydd yno. Chawn ni ddim bwrw pleidlais y mis nesaf. Ond mi allwn, ac mi ddylem, weddio dros y wlad a'i phobl, a thros y byd y mae gan yr Unol Daleithiau'r fath ddylanwad ynddo. Gweddiwn y bydd doethineb a gwarineb yn cario'r dydd, er mwyn pawb ohonom.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Ceisiais yr ARGLWYDD, ac
atebodd fi a'm gwaredu o'm
holl ofnau. Y mae'r rhai sy'n
edrych arno'n gloywi, ac ni ddaw
cywilydd i'w hwyneb' (Salm 34:4-5).



BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan Mr Euron Hughes ac am
5.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd
Jones. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r
gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch, a chynhelir oedfa am
5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00
o'r gloch gan y Parchg Brian Wright,
Cyffordd Llandudno.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r

gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod
yn dda eu hiechyd.

Cinio Cawl

Ar ôl y Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr
Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul
nesaf, Hydref 23, bydd Cinio Cawl i godi
arian at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Mae croeso cynnes i chi aros i ginio a
chefnogi gwaith Ward Alaw yr un pryd.

Er mwyn cael syniad o faint o fwyd i'w
baratoi, rhochwyd wybod i ni yn ystod yr
wythnos nesaf yma os ydych yn bwriadu
aros i ginio.

Ffoniwch Falmai
01286 872390

neu anfonwch e-bost i:
john.cilfynydd@btinternet.com

Edrychw'n ymlaen at eich gweld yn yr
Oedfa Deulu gyda phlant yr Ysgol Sul ac
yna yn y cinio.

Carmel

Ddydd Sul nesaf, Hydref 23, cynhelir yr
oedfa am 3.15 o'r gloch. Oedfa Fedydd
fydd hon, dan arweiniad y Gweinidog.
Sylwch ar yr amser cychwyn gwahanol,
os gwelwch yn dda.

Capel Coch

Cynhaliwyd Pwyllgor Adeiladau Capel
Coch nos Fercher diwethaf, Hydref 12, er
mwyn parhau'r drafodaeth o'r cyfarfod a

gynhaliwyd i aelodau Capel Coch a Nant
Padarn yr wythnos flaenorol.
Cadarnhawyd mai'r gwaith holl bwysig
sydd angen ei wneud i ddechrau yw
llunio rhestr gyflawn o'r gwelliannau a'r
addasiadau a fwriedir ar gyfer y festri er
mwyn cyflwyno'r cyfan i'r Pensaer i
wneud cynlluniau manwl.

Eglurwyd i ni gael gwybod nad yw'r
ffaith fod y capel wedi ei werthu yn
gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae
CADW yn ystyried y festri. Mae'r radd
2* yn parhau yn briodol i'r festri fel y
capel.

Trafodwyd yn fanwl yr holl waith trwsio
a gwella i'r tu allan i'r festri y gobeithir
ei wneud.

Dechreuwyd hefyd restru'r gwaith sydd
angen ei wneud oddi fewn i'r festri, a
chawn orffen y dasg honno gobeithio yn
y cyfarfod nesaf a gynhelir am 7.00 o'r
gloch, nos Fercher yr wythnos hon,
Hydref 19. Y gobaith yw y byddwn yn
medru cyflwyno'r holl argymhellion i'r
Pensaer yn dilyn y cyfarfod hwn.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr Morris Wyn
(Moi) Williams, Rhwng Ddwy Afon,
Nasareth, Penygroes (gynt o Terfyn,
Nant Peris) yn Amlogfa Bangor ddydd
Gwener, Hydref 14, dan arweiniad y
Gweinidog.

Cydymdeimlwn â'i chwiorydd Rhian a
Carys a'i frawd yng nghyfraith Meirion,
a'r teulu cyfan yn eu colled.

Yn ystod yr oedfa, soniwyd am Moi yn
gweithio yn ffatri Greengate ac yng
Ngwesty'r Fictoria yn Llanberis ac yn
fwy diweddar yng ngweithdy Manton
yng Nghaernarfon. Roedd yn mwynhau
ei waith ac wedi gwneud ffrindiau ym
mhob man.

Wedi i'w iechyd dorri, ymgartreffodd ym
Mron Eryri, Llanberis, ac ers 12 mlynedd
cafodd ofal da gan deulu Rhwng Ddwy
Afon, Nasareth.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe am 10.30
o'r gloch fore fory, Hydref 17, yn
'Cartref', Caethro. Croeso cynnes i bwy
bynnag a fynno i ymuno â ni.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr
Gogledd Arfon yn cael ei gynnal yn
Eglwys Unedig Llandudno am 7.00 o'r
gloch, nos Fercher, Hydref 26. Yn ystod
y cyfarfod pregethir gan y Parchg Wibur
Lloyd Roberts. Mae croeso cynnes i
bawb i'r cyfarfod hwn.

Henaduriaeth

Bydd Henaduriaeth Arfon yng Nghapel y
Groes, Penygroes am 3.00 a 6.30 o'r
gloch ddydd Mawrth, Hydref 18. Oedfa
Ordeinio blaenoriaid fydd oedfa'r hwyr.

Haiti

Wrth gyflwyno apêl am gymorth i'r bobl
a'r cymunedau sydd wedi dioddef yn
Haiti oherwydd Corwynt Mathew, mae
Tearfund yn ein hannog i gofio'r adnod
hon: 'Bydd gweddi a offrymir mewn
ffydd yn iachau y sawl sy'n glaf, a bydd
yr Arglwydd yn ei godi ar ei draed' (Iago
5:15).

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos,
a diolch unwaith eto i Gwenno, Dafydd
ac Andrew am arwain y cyfarfod.

Bu'r criw yn trafod eto'r bwriad i godi
arian at gynllun Tearfund, 'Gefeillio
Toiled'.

Trwy'r cynllun hwn, mae cyfle i eglwysi